



TAITH ASTUDIO CREFYDD YN RHUFAIN GYNNAR



Y Fforwm, Y Circus Maximus
a'r Colisewm





3587 gair.

Tynnwyd mwyafrif y lluniau gan [REDACTED] Mae trwydded rydd i'r lluniau o'r ymerawdwr ar y clawr cefn.

Bwriad y Daith

Amgueddfa fawr, safle cloddio archaeolegol diddorol a chyrchfan dwristaidd brysur yw'r Fforwm Rhufeinig a'r Colisewm erbyn heddiw. Er i dwristiaid ryfeddu'n bennaf at raddfa'r olion, gall taith astudio gyda ffocws arbennig iddi ddatgelu llawer mwy am fywyd yn Rhufain gynnar. Ffocws y daith astudio hon fydd profiadau crefyddol ac ysbrydol paganiaid a Christnogion yr ardal hyd at dröedigaeth yr ymerawdwr Cystennin Fawr yn Gristion tua 312 OC.

Byddwn yn:

1. Ystyried natur crefydd amldduwiol Rhufain gynnar a rôl temlau paganaidd Fforwm Rhufain.
2. Ystyried y berthynas rhwng y grefydd baganaidd a llywodraeth Rhufain gynnar.
3. Ystyried tyfiant Cristnogaeth a'r sefyllfa i Gristnogion ac Iddewon yn Rhufain o dan yr ymerawdwyr.
4. Erlid Cristnogion yn Rhufain imperialaidd: Y Circus a'r Amffitheatr.

COFIWCH:

- Mae ardal y fforwm yn fan agored i'r elfennau. Felly dylech wisgo'n briodol. Cofiwch ddod a gorchudd pen ac eli haul efo chi.
- Cofiwch ddod â phecyn bwyd a didon o ddiod. Mae'r faniau lluniaeth a welir yn yr ardal yn gymharol ddrud.

Cefndir : Y Duwiau Paganaid

Fel nifer o bobloedd yn y byd cynnar, addolai'r Rhufeiniaid nifer o dduwiau. Drwy gyfrwng y duwiau hyn y gwnaent synnwyr o'u hamgylchedd, eu bywyd beunyddiol a'u llwyddiant neu fethiant mewn brwydrau e.e. Roedd gan Sadwrn sawl cyfrifoldeb, gan gynnwys amaethyddiaeth a chyfoeth – Duw felly yr oedd hi'n bwysig iawn i'w blesio os am sicrhau bywyd da a digonedd o fwyd! Pwrpas addoli oedd sicrhau *pax deorum*, sef 'heddwch y duwiau'. Defnyddid y term '*religio*' i ddisgrifio'u perthynas â'r duwiau. Os fyddai heddwch yn teyrnasu rhwng y Rhufeiniaid a'u duwiau, yna byddai'n bosibl iddynt ddilyn bywydau hapus a llwyddiannus. Felly, ceid nifer o reolau, y *jus divinium*, 'cyfiawnder dwyfol', a ordeiniau beth oedd rhaid i'w wneud a beth ddylid ei osgoi er mwyn cadw'r duwiau'n fodlon.

Er yr arferir meddwl am grefydd fel rhywbeth sy'n gymorth i ddewis rhwng da a drwg ac i fyw bywyd moesol, nid oedd hynny'n rhan o *religio* i'r Rhufeiniaid. Defodau seremonïol oedd crefydd iddynt ac roedd y defodau hynny'n rhan annatod o'u diwylliant. Cyn belled â'u bod yn cyflawni'r defodau disgwyledig a phlesio'r duwiau, caent fyw eu bywydau fel y mynnent. Offrymu a wneid yn hytrach nag addoli a lle i offrymu nid i gynnal gwasanaeth gyda chynulleidfa oedd templ.

Gellid edrych ar grefydd baganaidd gynnar Rhufain bron fel ofergoeliaeth. Roedd presenoldeb rhyw dduw neu'i gilydd, y *numen*, yn gyfrifol am y weithred leiaf a cheisiai'r Rhufeiniaid blesio hyd yn oed dduwiau anhysbys. Weithiau offrymid i ddywiau nentydd, coed a chreigiau hefyd. Ond dychmygwyd y duwiau ar ffurf dynol, fel y dengys y cerfluniau ohonynt.

Credid bod offrymu a chanmol yn fodd i adfywio nerth y duw ac fel y buasai'n fwy parod i ganiatáu dymuniad. Rhan o'r aberth oedd gweddi, mewn gwirionedd gyda phwyslais ar ganmol y duw.

Rhwng tua 575 a 510 CC, bu Rhufain o dan reolaeth brenhinoedd o Etruria, llwyth a ddeilliai o'r Gogledd i'r afon Tiber. Roeddynt yr Etrwsgiaid yn ymroddedig iawn i'w defodau ac roedd ganddynt syniadau llawn dychymyg, ond cymhleth, am y byd a ddaw. Ymddengys bod gofalu am y meirw yn obsesiwn ganddynt a bod eu hoffrymau'n hael iawn. Er iddynt gredu mewn isfyd, sef *Hades*, roeddynt hefyd yn credu bod hunaniaeth y meirw yn parhau yn eu gweddillion marwol. Felly, roedd yn bwysig gofalu am eu beddau er mwyn iddynt fod yn hapus a pheidio â dychwelyd i aflonyddu ar y byw. Daeth darogan y dyfodol drwy astudio'r iau a'r perfedd yn gyffredin, yn enwedig cyn brwydrau. Cawsant ddylanwad mawr ar grefydd y Rhufeiniaid ac ar gynllun ac phensaernïaeth templau Rhufeinig, gan roi iddynt arddull Groegaidd. Nid yw'n syndod i nifer fawr o demlau gael eu codi yn Rhufain gynnar a bod eu gweddillion mor amlwg yn y fforwm.



Cerflun o Iau

Y Fforwm

Archaeoleg y Fforwm

Cyn symud oddi yma, mae'n bwysig deall rhywfaint am archaeoleg y fforwm a sylweddoli mai wedi cael eu hail godi mae llawer o'r strwythurau a'r colofnau a welir. Fel y tyfodd Rhufain, daeth ardaloedd a fforymau eraill yn atyniadau a dechreuodd pwysigrwydd gwleidyddol yr hen fforwm ddirywio o gyfnod Iŵl Cesar ymlaen. Erbyn y Canol Oesoedd, ni welwyd llawer o werth yn yr hen olion a gadewid iddynt ddirywio. Cwmpodd y temlau a gorchuddiwyd eu holion gan bridd, a gwastraff. Erbyn y 19eg ganrif, gelwid y lle yn *Campo Vaccino* - cae gwartheg. Mae'r hen lun hwn yn dangos dyfnder y rwbel gyda Phorth Septimus Severus fod wedi ei hanner gladdu.



Lefel y Campo Vaccino



Y Fforwm

1. Man Cychwyn y Daith Astudio : Yr Umbilicus Urbis




Yr Umbilicus Urbis

Yn ôl rhai ffynonellau, yr *Umbilicus Urbis* oedd canol symbolaidd dinas Rhufain. Dywedir i bob pellter yn yr Ymerodraeth Rufeinig gael ei fesur o'r pwynt hwn. Credid hefyd mai hwn oedd y lle y daeth byd y byw i gysylltiad a'r isfyd drwy'r hollt yn y ddaear y codwyd y strwythur brics drosto. Ceid seremoni agor yr *Umbilicus* deirgwaith y flwyddyn. Gwaharddwyd busnes swyddogol ar y dyddiau hynny oherwydd y credid bod ysbrydion drwg o gwmpas— arwydd clir o natur ofergoelus y Rhufeiniaid a'u crefydd.




Dilynwch y daith yn ofalus >>>



1. Umbilicus Urbis
2. Teml Sadiwm
3. Portico Dii Consenses
4. Teml Vespasian a Titus
5. Y Curia
6. Cysegrfa Fenws Cloacina
7. Teml Castor a Pollux
8. Teml Vesta
9. Tŷ Gwryfod Vesta
10. Teml Iwl Cesar
11. Teml Antoninus a Faustina
12. Bryn Palatin yn edrych dros y Circus Maximus
13. Teml Gwenera Rhufain
14. Y Coliseum

Temlau'r Duwiau Paganaid

2. TEML SADWRN



Olion teml Sadwrn yw rhai o'r olion amlycaf a hynaf yn y fforwm. Fe'i cwblhawyd rhywbryd tua 501 a 493 CC -yn y cyfnod Gweriniaethol, a chadarnha awduron cynnar, fel Livy ,mai dyma oedd ei safle gwreiddiol. Adferwyd y deml sawl gwaith, fel yr adlewyrchir gan yr arysgrif SENATVS POPVLVSQUE ROMANVS INCENDIO CONSVMPVTVM RESTITVTIT sef 'Adferodd senedd a phobl Rhufain yr hyn a ddinistriwyd gan dân' – digwyddiad eithaf cyffredin yn Rhufain gynnar. Dywedir i gerflun o pren o Sadwrn sefyll oddi mewn yn llawn olew'r olewydd a chyda 'chadwynau' gwlân o'i amgylch a ddatodwyd ar Ragfyr 17 yn unig sef dydd yr ŵyl baganaidd *Saturnalia*. Roedd honno'n ŵyl y buasai caethweision Rhufain yn sicr o fod yn edrych ymlaen ati oherwydd y gwrthdrowyd y drefn gymdeithasol am y dydd, gyda'r meistri'n gwasanaethu eu caethweision. Cysylltwyd y Duw Sadwrn â chyfoeth ac fe'i portreadwyd â phladur yn ei law – yn dangos pwysigrwydd amaethyddiaeth i'r economi a'r bobl.

Gweithredai'r deml fel trysorlys hefyd (*aerarium*) lle y gwarchodwyd cronfa aur ac arian y Weriniaeth Rufeinig. Yn wir, un o weithredoedd cyntaf Iŵl Cesar ar ôl iddo a'i fyddin gipio llywodraeth Rhufain oedd i gymryd yr aur a'r arian o'r deml. Yn ôl yr awdur Lucan, roedd yno 15,000 ingot aur, 30,000 ingot arian a 30,000,000 *sesterces*. Buasai'r *sesterces* yn unig werth tua £25 miliwn heddiw –felly'n swm anferthol y pryd hynny. Roedd dychweliad Cesar i'r ddinas ar ôl concwest Prydain yn 55 a 54 CC a'i lwyddiant yn y Rhyfeloedd Galaid yn 52CC wedi dangos bod sylfaen cyfoeth Rhufain yn newid o gynnyrch lleol i fod yn seiliedig ar feddiannu gwledydd eraill.

3. PORTICO DII CONSENTES—CYSEGRFA'R DUWIAU CYTUN

Tu ôl i deml Sadwrn gwelir 12 colofn sef olion Teml y Duwiau Cytûn — Iau, Juno, Neifion, Minerva, Mawrth, Gwener, Apollo, Diana, Volcanus, Vesta, Mercher a Ceres. Credir bod delwau efydd i'r duwiau hyn yn sefyll yn y portico'n wreiddiol. Adlewyrcha'r deml hon aml-dduwiaeth Rhufain yn glir – sef lleoliad y gellid plesio nifer o dduwiau mewn amser byr ynddo heb brin adael y fforwm! Mae'n deml bwysig hefyd oherwydd gwyddys fod y Rhufeiniaid yn dal i'w defnyddio yn 367 OC, sy'n golygu mai hon oedd y gysegrfa baganaidd olaf i'w defnyddio yn y fforwm, a hynny ar ôl itroedigaeth Ymerawdwr Cystennin i Gristnogaeth tua 312 OC ac i ddeddfau yn erbyn paganiaeth gael eu pasio o'r 350au ymlaen. Cyndyn iawn i ollwg eu paganiaeth oedd Y Rhufeiniad ofergoelus— rhagofn eu bod yn gwneud y penderfyniad anghywir!



4. TEML VESPASIAN A TITUS

Drws nesaf i'r *Portico Dii Consentes*, saif gwedd-
illion teml a godwyd i'r ymerawdwyr Vespasian a
Titus yn 79 OC. Oherwydd ei fod yn perthyn i
gyfnod hwyrach na'r olion cyfagos, byddwn yn ei
drafod nes ymlaen. Ond dylid sylwi ar yr
addurniadau ar y trawst sy'n portreadu celfi
offrymu, penwsg yr offeiriad, yr *aspergillus* i
ysgeintio dŵr sanctaidd ar yr anifail, bwyell i'w
ladd, chwsg cynffon ceffyl i gadw'r pryfaid draw
a phiser a chwpan ar gyfer gwin a dywelltid ar y
ddaeear. Llosgwyd peth o'r cig i'r duwiau a
bwyteid y gweddill.



5. Y CURIA (SENEDD-DY)

Codwyd y Curia'n wreiddiol gan drydydd brenin Rhufain, Tullus Hostilius. Dywedir gan Livy i'r adeilad gael ei gysegru'n *templum* er mwyn sancteiddio'r trafodaethau yno, gweithred a bwysleisiai'r cysylltiad rhwng crefydd a gwleidyddiaeth yma. Difrodwyd Curia Hostilius gan dân yn 52 CC. Cwblhawyd senedd-dy newydd gan Augustus yn 29 CC a'i alw'n *Curia Julia* ar ôl ei dad. Fe'i ddifrodwyd gan dân yn 94 OC a'i adfer gan yr Ymerawdwr Domitian. Parhaodd yr olion mewn cyflwr da oherwydd i'r *Curia* gael ei ddefnyddio fel eglwys yn y Canol Oesoedd; ond nid ydym yn gwybod pa newidiadau a wnaethpwyd iddo dros amser. Dylid cofio nad dyma'r unig adeilad ble y cyfarfu'r senedd; ond yn y temlau eraill hefyd.



6. CYSEGRFA VENUS CLOACINA

Mae'r cylch bach cerrig yma'n gofeb i natur paganiaeth Rhufeinig a'r angen i gysylltu rhyw dduw a phob gweithred. Duwies o Etruria (Twsgani) oedd Cloacina. Cysylltid hi â draeniau a charthffosydd yn enwedig y *Cloaca Maxima*, prif garthffos Rhufain. Cyfeiriodd Livy at y gysegrfa yn y 5ed ganrif CC oherwydd i werinwr o'r enw Lucius Verginius aberthu ei ferch yma yn hytrach na'i throsglwyddo'n gaethferch i'r uchelwr Appius Claudius - enghraifft dda o gryfder y gred baganaidd. Yn ystod cyfnod Octavius (Augustus) fel ymerawdwr, bathwyd darn arian gyda llun y gysegrfa arno sy'n dangos iddi gynnwys 2 gerflun benywaidd. Rhywbryd, fe gysylltwyd y gysegrfa â'r dduwies Fenws.



7. TEMPL CASTOR A POLLUX


Adeiladwyd templ Castor a Pollux gan Postumius Albus i ddathlu llwyddiant ym Mrwydr Llyn Regillus yn 493CC. Dywedir i'r efeilliaid dwyfol, Castor a Pollux, ymddangos yn y frwydr ac iddynt gael eu gweld wrth nant yng nghongl dde-orllewin y fforwm yn dyfrio'u ceffylau oedd yn diferu o chwys ar ôl y frwydr. Daeth yn fan cysegredig ar sail y stori fytholegol hon a'n lleoliad amlwg i godi templ iddynt. Adlewyrcha'r hanes unwaith eto'r berthynas agos rhwng crefydd, diwylliant a'r wladwriaeth yn Rhufain gynnar. Dywedodd yr awdur Cicero mai pwysigrwydd gwleidyddol oedd i grefydd oherwydd ei bod yn ddull o gadw'r dorf dan reolaeth, yn atal anrhefn cymdeithasol a'n hyrwyddo ymdeimlad gwladgarol. Nid yw'n syndod i'r senedd gyfarfod mewn templau'n aml!



Cyfarfyddai'r senedd yn aml um nheml Castor a Pollux a gwneid areithiau o'i flaen. Roedd darparu llefydd i drigolion fynegi barn yn bwysig ac adeiladwyd sawl *rostrum* a phorticos o flaen templau eraill i'r pwrpas hefyd. Erbyn diwedd cyfnod y Weriniaeth, gweithredi'r deml fel banc preifat hefyd dyma lle cedwid y pwysau a'r mesurau safonol. Roedd benthycu arian yn arfer eithaf cyffredin mewn templau ac yn un, wrth gwrs, y gweithredodd yr Iesu yn ei erbyn yn y deml Iddewig Jerwsalem. [e.e. Mc.11:15-19]. Mae'n debyg i'r deml gwreiddiol gael ei adeiladu o *tufa*, calchfaen lleol, a chydag un ystafell oddi mewn, sef y *cella*.

8. TEMPL GWYRYFON VESTA

Ni wyddys pwy a adeiladodd y teml Vesta. Ei nodwedd amlycaf yw ei ffurf crwn, yn unol â'r cynllun cyffredin i demlau Vesta. Mae'r colofnau sy'n weddill yn ddigon i ni allu gweld fod cylch o 20 colofn yma'n wreiddiol. Roedd a wnelo'r ffurf crwn mae'n debyg â'r tân a losgai'n dragwyddol mewn ystafell ddirgel a elwid yn *Adytum*. Yn ôl mytholeg Rhufeinig, Aeneas, mab y dduwies Gwener a ddaeth â'r tân tragwyddol o Gaerdroea i Rufain. Dim ond y *pontifex maximus* ('prif offeiriad') a Gwryfon Vesta, merched ifanc o'r teuluoedd gorau a gadwai'r tân yn fyw, a gawsai fynediad i'r ystafell hon. Ymddiriedwyd iddynt hefyd i gadw ewyllysiau pwysigion fel Cesar a Marcus Antonius—unwaith eto'n dangos y cysylltiad rhwng crefydd, economi a gwleidyddiaeth Rhufain.



Codwyd palas tri llawr yn lloches i'r gwryfon. Petaent yn colli eu gwryfddod o fewn 30 mlynedd, cawsant eu claddu'n fyw a chwipiwyd y dyn oedd yn gyfrifol hyd angau! Ceir rhesi o ddelwau'r gwryfon yng ngardd y palas.



Temlau'r Ymerawdwyr

Ar ôl i Augustus sefydlu ei hun yn ymerawdwr gwelwyd datblygiad yn natur y temlau a godwyd. Parhaid i ddefnyddio ac i atgyweirio'r temlau i'r duwiau paganaidd; ond cysegrwyd y rhai newydd i'r ymwerawdwyr – a gryfhai'r berthynas rhwng crefydd, llywodraeth a chadw trefn.

10. TEML IWŴL CESAR neu *DIVUS JULIUS*

Adeiladwyd teml Iwŵl Cesar, gan Augustus ei fab yn 29 CC yn dilyn Brwydr Actium. Roedd Cesar eisoes wedi cael ei ddwyfoli gan y Senedd yn 42CC. - y cyntaf o drigolion Rhufain i gael ei ddwyfoli ac arfer a ddaeth yn gyffredin ymysg yr ymerawdwyr a'i ddilynodd. Saif teml *Divus Julius* ar safle corfflosgi Cesar ac fe'i cysegrwyd i gomed y dehonglwyd iddi fod yn enaid Cesar yn arwyddo 'genedigaeth' Awgwstws yn ymerawdwr! Ceir disgrifiad o'r seremoni gan Pliny:

Cludwyd corff Cesar i'r Fforwm ar lwth ifori a'i gosod ar y Rostra mewn cysegrfa euraidd wedi ei modelu ar Deml Fenws Genetrix....Uwchlaw'r elor roedd dyfais yn troi cerflun cŵyr o Gesar yn ddibaid fel bod y gynulleidfa'n gallu gweld yn glir y 23 archoll [hynny yw ble y'i trywanwyd gan seneddwrwyr gelyniaethus, gan gynnwys Brutus].

Tanlinella hyn eto y fantais wleidyddol a gymrwyd o seremonïau'r temlau.



TEML VESPSIAN A TITUS [GWELER 3]

Yn dilyn cynsail Cesar, daeth yn ffasiynol i ddwyfoli ymerawdwr a chodi temlau iddynt. Yn dilyn marwolaeth yr ymerawdwr Vespasian yn 79 OC, ac yna'i fab Titus yn 81 OC, codwyd teml i'r ddau ohonynt gan yr Ymerawdwr Domitian, brawd Titus. Roedd Vespasian a Titus wedi ennill bri yn eu hymgyrchoedd yn erbyn yr Iddewon ym Mhalestina. Titus fu'n gyfrifol am ddinistr Teml Jerwsalem yn 70 OC. Vespasian a Titus fu hefyd yn gyfrifol am godi'r Colisewm.



11. TEML ANTONINUS A FAUSTINA

Codwyd y deml hon yn wreiddiol gan Antoninus Pius i glodfori ei wraig Faustina. Mae'r gweddillion y portico a'r *cella* wedi goroesi'n well na temlau eraill oherwydd i'r deml gael ei throï'n eglwys – San Lorenzo in Miranda, rhywbryd rhwng y 7fed a'r 11eg ganrif - er i newidiadau mawr gael eu gwneud i'r adeilad yn ystod y Dadeni. Dengys tystiolaeth ar y colofnau iddynt gael eu gorchuddio'n wreiddiol gyda marmor gwyn-wyrdd *cipollino* (patrwm nionyn).

Iddewiaeth a Christnogaeth Gynnar

Ymfudodd llawer o Iddewon i Rufain o Alexandra tua 200CC, rhai ohonynt yn cael eu denu gan gyfleoedd newydd efallai; ond nifer hefyd wedi symud yn dilyn concwest Jerwsalem gan y Cadfridog Pompei yn 63 CC ac Alexandria gan Iŵl Cesar yn 47CC. Er i Iddewiaeth gael ei chydabod yn grefydd swyddogol yn yr ymerodraeth gan Cesar ac Augustus, cynyddu wnaeth y tensiwn rhwng y ddwy genedl. Arweiniodd hynny at gyfres o ryfeloedd rhwng 66 a 135 OC, yn cynnwys dinistr Jerwsalem a'r Deml gan yr Ymerawdwr Vespasian a'i fab Titus yn 70 OC. Edrychid ar Gristnogion yn yr ymerodraeth fel Iddewon i gychwyn, ond yna'n gynyddol fel sect beryglus. Mae'n debyg mai Iddewon a ddaeth â Christnogaeth i Rufain tua 10 mlynedd ar ôl y croeshoeliad. Serch y tebygrwydd a welid rhwng Iddewiaeth a Christnogaeth, cyfeiriwyd at Gristnogion fel *hetaeria* ('urdd' neu 'sect') yn hytrach na *religio* oherwydd i'w crefydd fod yn newydd o'i chymharu â hanes hir Iddewiaeth. Mae'n debyg nad oedd llawer o bobl yn deall Cristnogaeth ac yn eu gweld yn grŵp braidd yn od. Roedd si eu bod yn ganibaliaid hyd yn oed— ar sail camddeall y cymun mae'n siwr (In. 6:53).

Problem fwyaf Cristnogion cynnar Rhufain oedd eu bod yn gwrthod parchu a phlesio'r duwiau paganaidd drwy offrwm nac yn fodlon derbyn duwioldeb yr ymerawdwr – arferion oedd yn rhan annatod o ddangos teyrngarwch ac ufudd-dod i'r ymerawdwr ac i Rufain. Hynny yw, nid oeddynt wedi ymgymhathu i'r diwylliant Rhufeinig. Gallasant gael eu beio gan y trigolion am unrhyw anffawd a'u hystyried yn chwyldrowyr gan yr ymerawdwr. Nododd yr awdur Cristnogol Tertullianus 'Os yw'r Tiber yn gorlifo...ceir y waedd: gyrrwch y Cristnogion i'r llewod'. Nid oedd o gymorth iddynt mai ffydd oedd yn boblogaidd ymysg y tlodion a'r difreintiedig oedd Cristnogaeth yn bennaf bryd hynny. Er iddynt fwynhau cyfnodau o oddefgarwch, chwalwyd eu bywydau gan ddigwyddiadau megis cael eu herlid yn greulon pan y'u gwnaethpwyd yn fychau dihangol gan Nero ar ôl tân 64 OC.

Nid hawdd oedd ymarfer crefydd newydd pan oedd crefydd draddodiadol Rhufain yn un amllduwiol, baganaidd – a phawb arall yn offrymu i'r duwiau neu'r ymerawdwr a chyda'r temlau mawreddog mor amlwg yn y tirlun. Dim ond mewn cysegrfeydd bach cuddiedig y gallai'r Cristnogion addoli'n ddiogel. Gallasant wynebu'r gosb eithaf am addoli'n agored os na wnaent iawn drwy ddiarddel eu crefydd a chynnig offrwm i'r ymerawdwr neu'r duwiau Rhufeinig. Ystyrid hynny'n reidrwydd cyfreithiol ar adegau. Mater o gydymffurfio ydoedd, mewn gwirionedd.

Gwrthodasai llawer o Gristnogion i ddiarddel eu ffydd, wrth gwrs. Arweinia hynny at ddiennyddiad boenus fel arfer, yn ogystal â'u gwneud yn ferthyron yng ngolwg eu cyd-addolwyr. Awgryma Candida Moss [2013] fod rhai'n chwenychu merthyrdod er mwyn cael dilyn esiampyl yr Iesu. Yn ystod teyrnasiad fer yr Ymerawdwr Decius (249-251 OC), bu'n ofynnol i Gristnogion nid yn unig i gynnig offrwm, ond i gael tystysgrif fel prawf o hynny—achos cyfyng gyngor i lawer mae'n siwr. Yn ystod llywodraeth Diocletian rhwng 284 a 305 OC y gwelwyd erlid Cristnogion ar ei waethaf. Ond yn 313 OC daeth Cystennin Fawr yn Ymerawdwr. Roedd wedi cael troëdigaeth i Gristnogaeth tua 312 a chyhoeddodd y dylai Cristnogion a phaganiaid gael addoli'n ddi-rwystr. Ond araf fu datblygiad Cristnogaeth mewn gwirionedd. e.e. Cafwyd cyfnodau, fel o dan yr Ymerawdwr Julian yn y 360au i geisio ail sefydlu goruchafiaeth paganiaeth a hyd yn oed cyn hwyred â 410 OC roedd paganiaid Rhufain yn dal i feio Cristnogion am Anrhaith Rhufain gan y barbariaid.

Y BRYN PALATIN, Y CIRCUS MAXIMUS A NERO

12. Safai'r palas ymerodrol ar y Bryn Palatin i Ddedwyrain y Fforwm yn atgof cyson o awdurdod yr ymerawdwr drostynt. Un o'i uchelgeisiau'r Ymerawdwr Nero oedd ehangu ei balas a'i erddi. Daeth y cyfle yn 64 OC pan ddifrodwyd rhan helaeth o'r ddinas gan dân a gychwynnodd mewn siopau ger y *Circus Maximus* sef y stadiwm rasio cerbydau. Roedd si ar led mai Nero a gychwynnodd y tân yn fwiadol er mwyn clirio'r tir ar gyfer ei brosiect adeiladu—ond go brin, yn ôl archaeolegwyr gan i'r tân gychwyn 1km i ffwrdd ac iddo ddifrodi rhan o balas Nero ei hun! Ond, i ladd y si, beiodd Nero'r Cristnogion. Arteithiwyd rhai Cristnogion hyd gyfaddefiad a dilynwyd hynny gan erledigaeth.



Y Circus Maximus



Dienyddiwyd nifer fawr o Gristnogion yn y modd mwyaf creulon gan Nero ar gyfer 'difyrrwch' trigolion Rhufain. Yn ei *Annales* a gyhoeddwyd yn 109 OC, dywed Tacitus:

I roi taw ar y si.....cyhuddodd [Nero'r] Cristnogion gan eu cosbi gyda'r arteithiau gwaethaf posibl.....Fe'u gorfodwyd i gymryd rhan mewn campau.....eu gorchuddio gyda chrwyn anifeiliaid gwyllt a'u lladd gan gŵn neu eu hoelio i groesau....neu eu rhoi ar dân fel lampau i oleuo'r adloniant.

Ni wyddys ble ddigwyddodd y dienyddio; ond cyfeiria Tacitus at y *Circus*. Nid oes modd gwybod os oedd disgrifiadau Tacitus yn ddibynadwy; ond roedd yn nes at y cyfnod na ni! Parhaodd yr erlid o dan Nero am

bedair mlynedd a dyma pryd y dienyddiwyd yr apostolion Pedr a Paul.



13. TEML FENWS A RHUFAIN

Wrth adael Bryn y Palatin i gyfeiriad y Colisewm, byddwch yn mynd heibio Teml Fenws a Rhufain a gynlluniwyd gan yr Ymerawdwr Hadrian yn 121 OC a'r deml fwyaf yn Rhufain gynnar. Fe'i chysegrwyd i'r duwiesau *Venus Felix* ['Fenws Lwc Dda'] a *Roma Eterna* ['Rhufain Dragwyddol'].

14. Y Colisewm

Y Colisewm, neu'r *Amphitheatrum Flavium* yn wreiddiol, yw'r amffitheatr Rhufeinig fwyaf yn y byd, strwythur gydag arwynebedd o 3,357 medr sgwâr. Nid yn unig ei faint a'i gwnâi'n unigryw; ond ei leoliad. Fel arfer, adeiladwyd amffitheatrau ar gyrion dinasoedd oherwydd y sŵn a glywid ohonynt; ond adeiladwyd y Colisewm yng nghanol Rhufain. Roedd rheswm dros faint y Colisewm a'r dewis safle. Roedd yr Ymerawdwr Vespasian eisiau creu argraff ar Rufeinwyr fel yr ymerawdwr cyntaf o linach Flavius a byddai'r amffitheatr enfawr hon nid yn unig yn symbol o'i awdurdod; ond hefyd o'i haelioni. Gsallai blesio 5000 o drigolion ar y tro a rhoi'r cyfle iddynt i leisio'u teimladau ym mhresenoldeb yr ymerawdwr. Roedd gan Vespasian ddigonedd o arian ar gyfer y prosiect yn dilyn concwest Jerwsalem yn 70 OC. Ar yr un pryd, roedd eisiau pellhau ei hun oddi wrth diawledigrwydd Nero. Dewisodd safle'r amffitheatr newydd yn ofalus iawn – sef ar safle llyn artiffisial yr oedd Nero wedi ei lunio yn dilyn y tân 64 OC – dewis symbolaidd. I bob pwrpas, roedd yn dychwelyd y tir i bobl Rhufain. Nododd yr awdur Martialis ar agoriad y Colisewm 'Adferwyd Rhufain i'w hunan a phleserau a fu'n eiddo i feistr yn awr yn eiddo i'r bobl.' Mae'n siŵr bod yr olygfa o lyn Nero'n cael ei ddraenio a'i lenwi gan rwbel wedi bod wrth fodd y Cristnogion yn arbennig. Dim ond hanner y Colisewm oedd wedi ei gwblhau erbyn marwolaeth Vespasian yn 79 OC ac fe'i gwblhawyd o dan ei fab Titus.



Tanlinella'r Colisewm awdurdod paganiaeth ac amldduwiaeth. Gwyddys ar sail darnau arian a cherfiadau bod delwau o dduwiau'n wreiddiol yn sefyll ym mwâu'r ail a'r trydydd llawr e.e. duw Hercules gyda'i groen llew a'i bastwn, Apollo yn pwyso ar ei drybedd ac Asclepius, duw meddygaeth, ar yr ail lefel. Rhaid ddychmygu'r Colisewm wedi ei orchuddio â marmor gwyn – golygfa ysbrydol ac ysbrydoledig.




Gwna natur gweddillion y Colisewm hi'n gymharol hawdd i ddychmygu'r olygfa fewnol ac allanol pryd y'i adeiladwyd a pha mor effeithlon oedd y system o dwneli a grisiau i gael y gynulleidfa, yr ymladdwyr a'r anifeiliaid gwyllt i'w manau priodol. Yn groes i'r amgyffrediad cyffredin, nid oes tystiolaeth i'r Colisewm gael ei ddefnyddio i ddienyddio Cristnogion. Ysgolheigion Catholig y Dadeni a ddechreuodd ei ddehongli fel man merthyru Cristnogion. Mae'n

bosibl mai i'r cyfnod hwnnw y perthyn stori merthyrdod Sant Ignatius hefyd. Er y cyfeirir at ei reibio gan lewod yn y Colisewm fel ffaith mewn sawl ffynhonnell, amheus yw'r hanes amdano'n cael ei ddwyn o Antioch i Rufain i wynebu ei gosb – ac iddo bregethu i'r ffyddloniaid ar y ffordd. Go brin y buasai'r Rhufeiniaid wedi caniatáu hynny! Er bod testunau'n sôn am farwolaeth Cristnogion yn yr amffitheatr, nid ydynt yn ddigon penodol eu dyddiadau i briodoli hynny i'r Colisewm. Defnyddid nifer o amffitheatrau eraill cyn adeiladu'r Colisewm, llawer yn rhai pren a godwyd ar gyfer achlysurau arbennig. Cynhaliwyd dienyddiadau hefyd yn y Circus Maximus a Circus Nero wrth safle presennol Basilica Sant Pedr. Ceir disgrifiadau gan y daearyddwr Strabo o unigolion yn diweddu eu hoes mewn caets llewod yn y Fforwm hefyd. Yn 1749, fodd bynnag, dyfarnodd yr Eglwys Gatholig bod y Colisewm yn dir sanctaidd a'i gysegru i Ddioddefaint Christ drwy godi croes sy'n dal i sefyll yma. Codwyd plac hefyd i gofio'r merthyron a'n symbol o fuddugoliaeth Cristnogaeth dros baganiaeth.



Mosaic o lawr y Colisewm yn darlunio'r adloniant.



Er nad oes tystiolaeth ysgrifenedig o'r cyfnod am ferthyrdod Cristnogion yn y Colisewm, mae'n gwbl bosibl i rai gael eu lladd yma drwy *damnatio ad bestias* ('condemnio i'r bwystfilod') fel rhan o'r 'adloniant'.

Gwyddwn yn sicr i deigrod fod yn rhan o sioeau ac roedd yn gyffredin i ddiennyddio 'troseddwyr' yn ystod sioeau gladiatoraidd. Mae'n ddigon tebyg i ddiennyddiadau barhau yn y *Circus Maximus* hefyd. Ond yn bennaf oll, gornestau gladiatoraidd yn erbyn anifeiliaid gwyllt a gladiatoriaid eraill a gynhaliwyd yn y Colisewm.

Dadleua Moss [2013] mai myth i gyfleu cryfder ffydd Cristnogion a'r annhegwch yn y modd yr ymdriniwyd â hwy oedd y staraeon o erledigaeth a merthyrdod a thynn sylw at y gwahaniaeth rhwng 'persecution' a 'prosecution.' h.y. am resymau cyfreithiol / gwleidyddol a oedd yn berthnasol i bawb y dienyddiwyd Cristnogion – er i hynny gael ei weithredu'n annheg ar rai adegau, fel gan Nero yn 64OC. Ond, yn ddiamheuol, roedd hi'n anodd i Cristnogion ymarfer eu ffydd yn agored Rhufain gynnar ac roedd temlau, y Circus Maximus, y Bryn Palatin a'r Colisewm yn symbolau o'r anawsterau yr oeddynt yn eu wynebu.

Llyfryddiaeth ddethol ar gyfer darllen Pellach

Bailey, C., *The Religion of Ancient Rome* (Amazon: Createspace, 2012).

Chadwick, H., *The Early Church* (London: Penguin, 1993).

* Connolly, P., *Colisewm: Rome's Arena of Death* (London: BBC Publications, 2003).

Green, B., *Christianity in Ancient Rome: The first three centuries* (London: T&T Clark International, 2010).

Hibbert, C., *Rome: The Biography of a City* (London: Penguin, 1987).

** Moss, Candida, *The Myth of Persecution: How Early Christians Invented a Story of Martyrdom* (New York: Harper Collins, 2013).

Watkin, D., *The Roman Forum* (London: Profile Books, 2009).

* Ceir llawer o wybodaeth defnyddiol iawn am adeiladu'r Colisewm yn llyfr Connolly ond dylid gofalus rhag derbyn pob dim a ddywed am erlid Cristnogion e.e. Cyflwynir sawl stori, fel dienyddiad Sant Igantius, fel ffaith er nad oes tystiolaeth hanesyddol i'r digwyddiadau.

** Mae'n werth darllen llyfr Moss oherwydd ei fod yn ddadleuol a gogleisiol. Rhydd safbwynt 'gwahanol' iawn am erlid Cristnogion yn Rhufain gynnar.

Dyma'r brehinoedd a'r ymerawdwr y cyfeirir atynt yn y testun [D.S. Ni restrir pob brenin / ymerawdwr]				
Tullus Hostilius 673-642 CC BRENIN y WERINIAETH			Trajan 98-117 OC YMERAWDWR	
Gaius Gracchus 159-121 CC BRENIN Y WERINIAETH			Hadrian 117-138 OC YMERAWDWR	
Iŵl Cesar 49-55 CC UNBEN			Antoninus Pius 138-161 OC YMERAWDWR	
27 BC DIWEDD Y WERINIAETH			Marcus Aurelius 161-180 OC YMERAWDWR	
Augustus 27-14 CC YMERAWDWR			Decius 249-51 OC YMERAWDWR	
Caligula 37-41 OC YMERAWDWR			Diocletian 284-305 OC YMERAWDWR	
Nero 54-68 OC YMERAWDWR			Domitian 81-96 OC YMERAWDWR	
Vespasian 69-79 OC YMERAWDWR			Cystennin Fawr 337-361 OC YMERAWDWR CRISTNOGOL CYNTAF	
Titus 79-81 OC YMERAWDWR			TROEDIGAETH C 317 OC	

